# Gwybodaeth am Gynaliadwyedd

13 Hydref 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 21 Medi, lle gofynnoch:

1. *Faint o filltiredd busnes y teithiodd staff yn eu ceir eu hunain (fflyd llwyd) yn y 12 mis diwethaf*
2. *Faint o arian a ad-dalwyd i staff am y milltiredd busnes hynny yn y 12 mis diwethaf*
3. *Pwy sy'n gyfrifol am bolisi teithio ac amcanion cynaliadwyedd eich sefydliad*

Dyma'n hymatebion i'ch cwestiynau.

1. Teithiodd staff 43,920 o filltiroedd yn eu ceir eu hunain rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017.

2. Ad-dalwyd £19,908 i staff am y teithiau hynny rhwng mis Medi 2016 a mis Awst 2017.

3. Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am bolisi teithio'r sefydliad. Mae gan wasanaeth ystadau a chyfleusterau Cynulliad Cenedlaethol Cymru dîm cynaliadwyedd sy'n gyfrifol am yr amcanion cynaliadwyedd. Caiff data allweddol am berfformiad amgylcheddol, gan gynnwys amcanion a pholisïau, eu cyhoeddi ar ein gwefan: http://www.assembly.wales/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/sustainability/Pages/sustainability.aspx

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn.  Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF